

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

Llinell Amser English

WILLIAMS, EVAN (1749-1835), llyfrwerthwr a chyhoeddwr llyfrau

Enw: Evan Williams
Dyddiad geni: 1749
Dyddiad marw: 1835
Priod: Frances Williams (née Neat)
Rhiant: Dafydd William
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Ilyfrwerthwr a chyhoeddwr llyfrau
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Evan David Jones

o deulu o bum brawd nodedig, plant Daryd Williams, neu David Williams, cynghorwr gyda'r Methodistiaid Calffaidd yn Sir Aberteifi. Gof oedd y tad wrth ei alwedigaeth, a dywedir iddo arfer ei grefft yn Swyddffynnon, yn yr Esgair ger Llangwryfon, ac ym Mhenygraig, Llannhystyd. Dichion iodd symud fel hyn yn ôl galwadau stad y Mabws (a Ffos-y-bleiddiaid. Y mae'n debyg mai yn Swyddffynnon y magwyd y plant, ond erbyn 1777 ym Mhenygraig y preswylia'r tad, ac yn ei dŷ ef y cyfarfyddai Methodistiaid Calffaidd yr ardal honno cyn codi capel Rhiwbwy. A chyfrif o gonfod ei farw, ganwyd Evan Williams yn 1749. Fel ei frodyr, **John** ('yr Hen Syr'), Thomas, **DAVID** (warden eiddades Hungerford, rheithor Heytesbury (a thad C. J. Blasius Williams, y meddgy a'r awdurdod ar afiechydion yr ysgyfaint), a WILLIAM, rheithor Llanstinan, cafodd ei addysg o dan **Edward Richard** yn ysgol ramadeg Ystrad Meurig. Aeth i Lundain, a chymherth ddi-ddordeb ym mudiadau Cymreig y ddinas. Daeth yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion yn 1789, ond ni ddringodd i'w swyddi. Bu'n un o ymddiriedolwyr yr ysgol elusen Gymreig, a cheir ei enw yn gyson yn ei chofnodion o 1795 hyd ei farw. Sefydlodd fusnes gwerthu llyfrau gyda' frawd, Thomas, yn 13, Strand. Rhyw 10 mlynedd y bu ei frawd yn y bartneriaeth, ond parhaodd Evan Williams yn y fusnes am dros 40 mlynedd. Dechreuodd y brodyr gyhoeddi llyfrau o ddi-ddordeb Cymreig. Hyd tua 1800 ymddengys 'E. & T. Williams' fel llyfrwerthuwr ar ddalennau-teitl llyfrau (e.e. yn 1791, **Walter Davies**, ... Rhyddid; **D. Thomas**, Awdlau ...; **John Williams**, An Enquiry ... concerning the Discovery of America; **M. Williams**, A Treasury of Knowledge). Y flwyddyn wedyn gwelir enw E. Williams gyda J. Owen fel cyhoeddwr yw **W. Owen Pughe**, *The Heroic Elegies of Llywarch Hen*. Llyfrau pwysig eraill y dechreuwyd eu cyhoeddi gan y ddau frawd a'u gorffen gan E. Williams ei hun, yw **William Owen Pughe**, *A Welsh and English Dictionary*, 1793-1803, a *The Cambrian Register*, 1795-1818. Yn ail gyfrol y *Cambrian Register*, a ymddangosodd yn 1799, disgrifir y brodyr fel 'E. & T. Williams (successors to Mr. Blamire) 11, Strand,' ac yr oedd ganddynyt ystordy yn 156, Leadenhall Street. Yn 1803 ymddangosodd cnwd cyntaf cyhoeddiadau E. Williams ar ei ben ei hun fel 'Bookseller to the Duke and Dutchess of York, and successor to Mr. Blamire.' Y llyfrau cyntaf hyn oedd *Cambrian Biography* yw **W. Owen Pughe**, *A Vindication of the Celts* yw Cox, *A Vindication of the genuineness of the Ancient British Poems* Sharon Turner, a *History of the Cymry* **Peter Roberts**. Ni ellir enwï'r holl lyfrau ar hanes, barddoniaeth, ieitheg, a hynafiaethau Cymru y bu gan E. Williams ran yn eu cyhoeddi, ond dylid nodi *The poetical works of Edward Richard*, 1811, *Cambria Depicta* **E. Pugh**, 1811, *Cambrian Popular Antiquities* **Peter Roberts**, 1815, *Coll Gwynva*, 1819, a *Hu Gadarn*, 1822, y ddau gan **W. Owen Pughe**. Gair digon gwael sydd i Evan Williams yn llythyrau llenorion y cyfnod. Fel' gelwir yn 'Mr. Skinfint' ac yn 'Skin-devil Williams.' Et, antur dyoedd cyhoeddi'r math o lyfrau y bu ef yn gyfrifol am eu dwyn allan, a theg yw talu teyrngd iddo ar gyfrif ei restr werthfawr o gyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig. Priododd â Frances, merch hynaf Robert Neat, Saltross, Wiltshire. Bu hi farw yn 1814 yn 52 oed. Yr oedd ef yn 86 pan fu farw yn Penton Street, 25 Awst 1835, a'i gladdu ym mynwent S. James, Pentonville.

Troes ei frawd

THOMAS WILLIAMS (1755 - 1839)

I fyfdd bancio a dychwelodd i'w sir enedigol gan gymryd cyfran, 13 Medi 1808, ym manc y Mri. Jones, Davies, a Williams (gynt Jones, Morgan, a Davies) a elwid yn Fanc y Llong yn Heol y Bont, Aberystwyth. Daeth y bartneriaeth hon hefyd i ben yn 1815-6, a thbyir i Fanc y Llong beidio a bod y pryd hwnnw, ond yr oedd Williams, Davies, a'u Cwmni yn rhedeg banc yn yr un adeilad, ac yn dal cysylltiad â'r un cynrychiolwr yn Llundain (Syr James Esdaile & Co.) yn 1835. Bu Thomas farw 15 Ebrill 1839 yn 84 oed. Y mae cofeb iddo ef a'i wraig (Margaret, a fu farw 25 Rhagfyr 1849) yn mhorthw eglwys S. Mihangel, Aberystwyth, eglwys y rhoesaf ef £100 tuag at ei hailadeiladu yn 1830.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869)

Daniel Williams, *Memoirs and sketches of one hundred-and-eleven eminent men, natives of the county of Cardigan, chiefly authors, several of whom have not before been noticed in a similar publication, with an account of their publications, including a list of living authors & of their publications* (1874)

H. Blackwell, *NLW MS 9276A: A Dictionary of Welsh Biography*

NLW MSS 6598, 6664, a llawysgrifau Mysefin

J. Evans, *Y trydydd byr-gofiant: yn cynwys hanes oddeutu cant o bregethwyr anordeiniedig a fu farw yn Sir Aberteifi o ddechreuad y cyfundeb hyd 1913* (Dolgellau 1913)

Y Geninen, 1893, 88

West Wales Historical Records (1910–29), vi, 136-8

The Gentleman's Magazine, 1835

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 58584888

Wikidata: Q20748828

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n

Arddull APA



Jones, E. D., (1953). WILLIAMS, EVAN (1749-1835), llyfrwerthwr a chyhoeddwr llyfrau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-EVA-1749>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LG
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i:
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government